# CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

## SWYDD DDISGRIFIAD

**Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swydd hon**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Arweinydd Lleoliad Cyn Ysgol** |
| **Rhif y Swydd:** | **SYR0077** |
| **Cod Gwerthuso Swyddi:** | **SCH57** |
| **Gwasanaeth:** | **Ysgolion** |
| **Lleoliad/Canolfan Waith:** | **Ysgol Y Bannau** |

Mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir

| | |
|---|---|
| **Graddfa:** | **Graddfa 6**<br>**Pwynt 11 i Bwynt 14**<br>**£28,142 i £29,540 y flwyddyn ar gyfartaledd**<br>**£14.58 i £15.31 yr awr** |
| **Oriau'r Contract:** | **30 Awr, Parhaol** |
| **Atebol i:** | **Pennaeth a'r Corff Llywodraethu** |
| **Cyfrifoldeb dros:** | **Cynorthwyydd y Lleoliad Cyn Ysgol** |

## Crynodeb

### Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

O dan arweiniad yr Unigolyn Cyfrifol, Pennaeth neu unrhyw uwch aelod o staff arall, neu lywodraethwr, eich rôl bydd cydlynu a bod yn gyfrifol am redeg y lleoliad o ddydd i ddydd gan sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.
Darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar o fewn y lleoliad lle gall plant a gofalwyr teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chael cymorth a chefnogaeth gadarnhaol trwy amrywiaeth o weithgareddau.
Bod yn gyfrifol am reoli'r amgylchedd dysgu e.e. sefydlu/paratoi/cynnal adnoddau dysgu, creu arddangosfeydd o waith plant, paratoi, cynnal a gwerthuso meysydd o ddarpariaeth barhaus.
Ymgymryd â thasgau gweinyddol angenrheidiol gan gynnwys cwblhau ffurflenni a threfniadau derbyn.
Sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel, trefnus ac yn cael ei gynnal a'i gadw bob amser.

Sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeledd, cyfrinachedd a diogelu data, a bod unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd, fel y bo'n briodol.
Sicrhau bod darpariaeth yn bodloni polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau AGC.
Bod yn gyfrifol am hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn unol ag arweiniad AGC a/neu Estyn
Bod yn gyfreithiol gyfrifol fel y 'Person â Chyfrifoldeb' o dan reoliadau AGC.
Bod yn gyfrifol am gynllunio, adolygu a chyflwyno profiadau chwarae o ansawdd da / y cwricwlwm Dysgu Sylfaen a gyda gofal disgyblion, iechyd, diogelwch, lles, cymorth emosiynol ac ymddygiad.
Bod yn gyfrifol am arsylwadau, asesiadau a chadw cofnodion rheolaidd, a darparu gwybodaeth berthnasol ar lafar/ysgrifenedig i gyfrannu at gynllunio a gwerthuso, er mwyn nodi camau nesaf dysgu'r plant.
Bod yn gyfrifol am roi gwybod i rieni am gynnydd plant a darparu adroddiadau ysgrifenedig yn ôl yr angen.
Bod yn gyfrifol am reoli ymddygiad plant.
Bod yn gyfrifol am sicrhau bod byrbrydau addas yn cael eu darparu a'u paratoi a bod amser bwyd yn cael ei oruchwylio, gan gydymffurfio â rheoliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

**Cyfrifoldeb dros eraill**: Mae'r swydd yn cael effaith sylweddol ar les unigolion a grwpiau (e.e. corfforol, meddyliol, cymdeithasol, iechyd a diogelwch) yn unol â chanllawiau AGC ac Estyn trwy:

- arwain yr asesiad o anghenion a chynnydd disgyblion
- datblygu a gweithredu cynlluniau unigol
- trefnu/darparu cymorth i ddisgyblion ag anghenion personol/cymdeithasol ychwanegol
- trefnu derbyniadau plant i'r lleoliad a chymorth gyda'r pontio i'r ysgol

**Cyfrifoldeb dros staff**: Mae gan y swydd gyfrifoldeb uniongyrchol am oruchwylio nifer fach o staff a byddai disgwyl i chi arddangos tasgau neu gynghori/arwain gweithwyr newydd, unigolion ar brofiad gwaith neu weithwyr dan hyfforddiant.

**Cyfrifoldeb dros adnoddau ariannol**: Mae gan y swydd rywfaint o gyfrifoldeb uniongyrchol am adnoddau ariannol, gan gynnwys blaenoriaethu gwariant, trin symiau bach o arian yn rheolaidd, prosesu sieciau, anfonebau ac ati.

**Cyfrifoldeb dros adnoddau corfforol:** Mae gan y swydd gyfrifoldeb uniongyrchol dros adnoddau corfforol a thrin a defnyddio offer yn ofalus (e.e. cyfrifiadur / cyfrifiadur personol, deunyddiau/adnoddau addysgu a dysgu, cadw cofnodion diogel a chywir).

**TASGAU, DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU NODWEDDIADOL**

**Cymorth Cwricwlwm:**

- Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu i blant, addasu gweithgareddau yn ôl ymatebiad/anghenion plant.
- Gweithredu strategaethau a mentrau dysgu lleol a chenedlaethol e.e. blynyddoedd cynnar, llythrennedd a rhifedd cynnar, Dysgu Sylfaen, Cynllun Gwên a gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleoedd a ddarperir gan weithgareddau dysgu eraill i gefnogi datblygu sgiliau perthnasol.
- Dyfeisio, trefnu a rheoli gweithgareddau dysgu, y lleoliad ac adnoddau yn ddiogel, yn unol ag egwyddorion arfer da ac fel y'i diffinnir gan Gwricwlwm i Gymru i feithrin annibyniaeth a hunan-barch.
- Defnyddio TGCh yn effeithiol mewn gweithgareddau dysgu a dechrau datblygu cymhwysedd ac annibyniaeth plant wrth ei ddefnyddio.
- Modelu defnydd da o iaith i gefnogi pob maes dysgu.

- Trafod a rhyngweithio â phlant gan ddefnyddio iaith briodol.
- Annog sgiliau meddwl cynnar a chynnwys plant yn eu dysgu eu hunain.
- Rhoi cyngor ar ddosbarthu a defnyddio cymorth/adnoddau/offer arbenigol yn briodol.
- Paratoi, cynnal a phennu'r angen am offer ac adnoddau cyffredinol ac arbenigol.
- Cynllunio, arsylwi, gwerthuso ac adnabod y camau nesaf yn nysgu'r plant, gan alluogi ac annog pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial.
- Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu polisïau'r lleoliad yn unol â chanllawiau AGC ac ar gyfer datblygu gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeledd, cyfrinachedd a diogelu data. Sicrhau cydymffurfiad ac adrodd ar bob pryder fel y bo'n briodol.
- Gall cydlynu gweithgaredd lleoliad e.e. profiad gwaith / cyswllt cartref-ysgol / gwaith ADY / lleoliadau hyfforddi.
- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi a sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Sefydlu perthnasoedd adeiladol a chyfathrebu ag asiantaethau/ gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi cyflawniad a chynnydd plant unigol.
- Cymryd cyfrifoldeb am ethos/gwaith/nodau cyffredinol y lleoliad.
- Cymryd y cam cyntaf, fel y bo'n briodol, i ddatblygu dulliau aml-asiantaeth priodol i gefnogi disgyblion.
- Mynychu, hwyluso a chymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys plant.
- Modelu arfer da a chyfrannu at gynllunio a chyflenwi darpariaeth.

**Cymorth i blant:**

- Cefnogi plant yn gyson wrth adnabod ac ymateb i'w hanghenion unigol.
- Sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol â phlant, gan ymddwyn fel enghraifft dda, arddangos gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol a gosod disgwyliadau uchel.
- Cefnogi plant i gael mynediad i'r Cwricwlwm i Gymru trwy ryngweithio gan ddefnyddio iaith briodol (gan gynnwys ffurfiau eraill o gyfathrebu) a, gyda phlant iau, ymestyn dysgu seiliedig ar chwarae yn yr ystafell ddosbarth dan do ac yn yr awyr agored.
- Annog plant i ryngweithio a chydweithio ag eraill a chynnwys pob plentyn mewn gweithgareddau.
- Hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio strategaethau i adnabod a gwobrwyo cyflawniad o hunanddibyniaeth.
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyn pob disgybl, gan eu hannog i ryngweithio, cydweithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Arwain datblygiad a gweithrediad Cynlluniau Chwarae Unigol, fel y bo'n briodol.
- Adnabod patrymau ymddygiad annodweddiadol mewn plant a dilyn gweithdrefnau priodol.
- Monitro a darparu ar gyfer gofal, diogelwch a lles plant.
- Trefnu gofal ar unwaith am fân ddamweiniau, gofidiau ac anhwylderau, gan adrodd am broblemau difrifol ac achosion canfyddedig o berygl neu risg i'r Unigolyn Cyfrifol, y Pennaeth neu uwch aelod arall o staff neu lywodraethwr.
- Cefnogi datblygiad plant o ran gofal personol/corfforol, gan gynnwys defnyddio'r tŷ bach, newid cewyn a dysgu i ddefnyddio'r tŷ bach.

**Cymorth i'r lleoliad:**

- Trefnu a rheoli gweithgareddau dysgu (gan gynnwys yr amgylchedd ac adnoddau dysgu) i sicrhau bod plant yn ddiogel.
- O dan system oruchwylio y cytunwyd arni, cynllunio a pharatoi amcanion dysgu, gan addasu gweithgareddau/cynlluniau gwaith fel y bo'n briodol.
- Monitro a gwerthuso ymatebion plant i weithgareddau dysgu gan ddefnyddio ystod o strategaethau asesu a monitro.
- Asesu'n wrthrychol, darparu adborth ac adroddiadau i rieni/gofalwyr mewn perthynas â datblygiad, cynnydd a chyflawniad eu plentyn a hwyluso pontio priodol i'r ysgol

- Yn unol â pholisi disgyblu'r lleoliad, defnyddio strategaethau a thechnegau rheoli ymddygiad er mwyn rheoli ymddygiad mewn ffordd adeiladol a chyfrannu at amgylchfyd dysgu pwrpasol.
- Cefnogi rôl rhieni/gofalwyr yn dysgu plant.
- Lle bo'n berthnasol, cyfarwyddo ac arwain gwaith oedolion eraill sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn y lleoliad.
- Darparu adroddiadau rheolaidd i'r corff llywodraethu ynglŷn â'r lleoliad.
- Gwerthuso'r lleoliad a nodi targedau ar gyfer Cynllun Datblygu'r Lleoliad. Arwain o ran gweithredu'r targedau, cofnodi cynnydd ac effaith ar blant.
- Cynnal asesiadau risg a sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n briodol ar ymweliadau a theithiau.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod holl staff y lleoliad yn cael hyfforddiant cynefino sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant. Sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant parhaus yn rheolaidd.
- Darparu arweiniad a goruchwyliaeth briodol i staff a chynorthwyo i hyfforddi a datblygu staff, fel y bo'n briodol.
- Gweithredu gweithdrefnau Amddiffyn Plant/Iechyd a Diogelwch, darparu adroddiadau ysgrifenedig/llafar a mynychu Cynadleddau Achos a chyfarfodydd Grŵp Craidd, yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod gofynion cyfrinachedd a diogelu data yn cael eu cynnal bob amser.

## Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei hystyried yn weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

## Gofynion Iechyd a Diogelwch:

Mynd i'r afael â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch mewn dull rhagweithiol er mwyn sicrhau bod safonau uchel o arferion gwaith diogel yn cael eu cynnal.

## Datganiad Cydraddoldeb:

Cefnogi a gweithredu'n frwd egwyddorion ac arferion cyfleoedd cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor.

## Gofynion y Gymraeg:

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

**SYLWCH;**

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

# Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlynol yn eich cais.

## Profiad

### Hanfodol

- Meddu ar o leiaf dwy flynedd o brofiad o weithio gyda phlant yr oedran y mae'r swydd hon yn ymwneud ag ef.

## Gwybodaeth

### Hanfodol

- Meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion addysgol ychwanegol.
- Meddu ar wybodaeth gadarn o osod gweithdrefnau a pholisïau.
- Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o egwyddorion ac ethos Dysgu Sylfaen.

## Cymwysterau a Hyfforddiant

### Hanfodol

- Meddu ar o leiaf TGAU/TAG (neu gymwysterau cyfatebol) mewn Saesneg, Cymraeg os oes angen a Mathemateg (A*-C) ac wedi cyflawni o leiaf NVQ3 mewn disgyblaeth sy'n ymwneud â phlant sy'n briodol i'r swydd.

## Rhinweddau Personol

### Hanfodol

- Gallu uniaethu'n dda â phlant, rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Hyrwyddo cysylltiadau da â rhieni a'r gymuned.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu a gwrando da a gallu cyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i eraill.

## Sgiliau

### Hanfodol

- Gallu gweithredu canllawiau AGC ac Estyn ac ymgymryd â phrosesau hunanwerthusiad.
- Gallu defnyddio technoleg fel teclyn dysgu e.e. cyfrifiadur, fideo.
- Gallu defnyddio offer technolegol e.e. llungopïwr, camera digidol
- Wrth reoli tîm o staff, meddu ar sgiliau goruchwylio a rheoli staff cadarn.

- Gallu gwneud penderfyniadau a darparu arweiniad.
- Bod yn rhagweithiol wrth gynnig syniadau ac arwain ar adolygu'r lleoliad.
- Gallu datrys problemau syml ac ymateb i amgylchiadau nas ragwelwyd (e.e. peryglon, damweiniau ac ati).

## Gofynion Eraill

### Hanfodol

- Bod yn ymrwymedig i'ch datblygiad proffesiynol eich hun, a bod yn barod i ymgymryd â hyfforddiant statudol a hyfforddiant priodol arall.

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

## Ein gwerthoedd:

**Proffesiynol**
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

**Cadarnhaol**
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

**Blaengar**
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

**Agored**
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

**Cydweithiol**
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

## Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

**Gair i gall:**

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth

- Cwblhewch y cais yn gyflawn

## Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 19/06/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 22/06/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 01/07/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.